**CYNGOR BWRDEISTREF SIR PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG**

# GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG BWRDEISTREF SIR PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL) (ADFER TERFYNAU CYFLYMDER 30 MYA) 2025

## HYSBYSIAD

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 82(2), 83 ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf").

Effaith y Gorchymyn arfaethedig yw cynyddu'r terfynau cyflymder ar dair rhan o'r ffordd o 20 mya i 30 mya. Mae hyn yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru ac ymgynghoriad pellach y Cyngor ar, ac ailasesiad o, osod eithriadau i osod terfyn cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru i 20 mya. Nodir y lleoliadau lle bwriedir ailgyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya yn Atodlen 1 isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig, Mapiau a Datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar gael, yn rhad ac am ddim:

- drwy gysylltu â traffictransportation@bridgend.gov.uk neu
- drwy ffonio'r Ganolfan Cymorth i Gwsmeriaid ar 01656 643643 (nodwch y cyfeirnod TRA001369 i wneud apwyntiad)
- neu ar-lein ar: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/

Rhaid anfon gwrthwynebiadau neu sylwadau i'r cynigion, ynghyd â'r sail dros eu gwneud, yn ysgrifenedig wedi'u cyfeirio at y llofnodwr yn y cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn 31 Hydref 2025. Nodwch y ffordd y mae eich sylwadau'n berthnasol iddi drwy ddefnyddio'r rhif sy'n ymddangos yn y bedwaredd golofn o'r Atodlen isod.

Os oes gennych unrhyw anhawster yn ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad mewn fformat arall arnoch, er enghraifft, print mwy o faint, sain, Braille neu ffacs, gwnewch eich cais drwy e-bost neu dros y ffôn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir uchod.

Noder y gall y Cyngor ystyried pob sylw a dderbynnir yn gyhoeddus a bod modd i sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i'r cyhoedd ei weld.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

ATODLEN 1

Ffyrdd lle mae terfyn cyflymder o 30 mya i gael ei ailgyflwyno

| Enw’r Ffordd | Hyd y Terfyn Cyflymder 40 mya | Rhif |
|---|---|---|
| A473 Bryn Bryntirion/Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr | O bwynt 100 metr i'r gorllewin o ochr orllewinol y gyffordd i Fryngolau tua'r dwyrain am bellter o 1,070 medr. | 1. |
| Ffordd Pencoed/Ffordd Llangrallo, Pencoed | O bwynt 157 metr i'r dwyrain o'i gyffordd â'r A473 tua'r dwyrain am bellter o 675 medr. | 2. |
| Heol y De, Porthcawl | O'i chyffordd â Ffordd Fulmer i'r de am bellter o 400 medr. | 3. |

Dyddiad: 10 Hydref 2025

K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB